FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Sir Fynwy

9 - 13 Awst 2004

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw gorfodi cyfraith fwyd y DU sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Awdurdod Lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Dylid cydnabod y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ôl Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd, 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn Atodiad A.

CYNNWYS

		Tud.
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**4**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**6**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**8**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**12**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**13**
6	Cyfleusterau ac Offer	**17**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**19**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**25**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**26**
10	Cyngor i Fusnesau	**27**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**28**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**30**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**32**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**34**
15	Gorfodaeth	**35**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**37**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**39**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**40**
19	Monitro Mewnol	**41**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**42**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**43**
	Atodiad	
A.	Geirfa	**44**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Sir Fynwy o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a chyfraith bwydydd anifeiliaid Sir Fynwy. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod yn y Fenni, Cas-gwent a Chwmbrân rhwng 9 - 13 Awst 2004.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.6 Awdurdod Unedol Cymreig yw Cyngor Sir Fynwy, sy'n cynnwys ardal o ryw 330 milltir sgwâr yn Ne Ddwyrain Cymru.

1.7 Y prif ganolfannau poblogaeth yw'r Fenni, Caldicot, Cas-gwent, Trefynwy, Rhaglan a Brynbuga. Yn y bôn, gwledig yw natur gweddill yr ardal.

1.8 Poblogaeth breswyl y Sir yw rhyw 85,000, er bod ymwelwyr yn cynyddu'r nifer hwn yn sylweddol adeg gwyliau.

1.9 Gan Adran Gwarchod y Cyhoedd, sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth Amgylcheddol yr Awdurdod, oedd y cyfrifoldeb am orfodi cyfraith fwyd a chyfraith bwydydd anifeiliaid, ac am ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy a'u rheoli.

1.10 Roedd Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn gyfrifol am orfodi hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y Gwasanaeth Safonau Masnach yn gyfrifol am orfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid.

1.11 Darperid gwasanaethau o rwydwaith o swyddfeydd a oedd ar agor i'r cyhoedd rhwng 08.45 a 17.00 rhwng dydd Llun a dydd Iau, a than 16.30 ddydd Gwener. Hefyd, gweithiai swyddogion y tu allan i oriau gwaith arferol i arolygu busnesau a agorai gyda'r nos neu ar benwythnosau.

1.12 Bodolai trefniant corfforaethol wrth gefn i ymdrin ag achosion brys, er nad oedd unrhyw wasanaeth penodol y tu allan i oriau gwaith ar gyfer Iechyd yr Amgylchedd neu Safonau Masnach.

1.13 Yn ei Gynllun Gwasanaeth, nodai'r Awdurdod y cynigid gwneud y gweithgareddau canlynol yn ystod 2004 – 2005:

Gweithgaredd Gorfodi	**Nifer y Safleoedd**
Arolygiadau hylendid bwyd (A-C)	596
Samplau bwyd microbiolegol	275
Arolygiadau safonau bwyd	326
Samplau safonau bwyd	50

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn gwneud ystod o weithgareddau, ac roedd wedi cyrraedd ei nod o 100% o arolygiadau hylendid bwyd yn ystod 2003 - 2004. Roedd yn datblygu ystod o gyngor i fusnesau, ac wedi gwirfoddoli cymryd arno swyddogaeth Awdurdod Cartref i Farchnadoedd Ffermwyr yng Nghymru.

2.2 Roedd pryder bod yr Awdurdod, yn amhriodol, wedi awdurdodi nifer o swyddogion, nad oedd ganddynt y cymwysterau gofynnol, i gyflawni rhai dyletswyddau sef, yn benodol, safonau bwyd ac arolygu atafaelu a chadw bwyd.

2.3 Yn ei Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth, nododd yr Awdurdod rai gwelliannau angenrheidiol i'w wasanaeth gorfodi cyfraith fwyd. Er nad oedd yr Awdurdod wedi llunio'r holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol, cydnabuwyd y cafwyd gwelliant. Dylai eu datblygu ymhellach gynorthwyo gyda gwella cyflwyno'r gwasanaeth.

2.4 Meysydd Allweddol ar gyfer eu Gwella gan yr Awdurdod

Swyddogion Awdurdodedig

Roedd yr Awdurdod wedi penodi Swyddogion Awdurdodedig, o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, nad oedd ganddynt gymwysterau a oedd yn briodol i ystod y gweithgareddau gorfodi yr oeddent wedi'u hawdurdodi i'w gwneud. Peryglai hyn allu'r Awdurdod i gynnal arolygiadau priodol a graddio risg busnesau bwyd yn yr ardal. Nid oedd yr Awdurdod wedi ceisio sefydlu a oedd eu cymwysterau a'u profiad yn gyfwerth â'r rheiny a fanylwyd yng Nghodau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Nid oedd unrhyw gynllun hyfforddi dogfenedig, nid oedd rhai swyddogion wedi derbyn yr hyfforddiant datblygiad parhaus gofynnol, ac nid oedd cofnodion hyfforddiant yn cynnwys digon o wybodaeth i bennu a fodlonwyd anghenion hyfforddi a gofynion datblygiad parhaus.

Gorfodi Bwydydd Anifeiliaid

Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod yr awdurdod wedi gwneud unrhyw weithgaredd arwyddocaol o ran gorfodi bwydydd anifeiliaid ers cyflwyno'r ddeddfwriaeth bresennol am y tro cyntaf ym 1998. Rhaid i'r Awdurdod gymryd camau i nodi busnesau a safleoedd a ddylai fod wedi'u cymeradwyo neu eu cofrestru ond sydd heb eu cymeradwyo na'u cofrestru, dyfeisio a gweithredu rhaglen arolygu a samplo briodol, a chadw cofnodion addas.

Trwyddedu Siopau Cigyddion

Roedd yr Awdurdod wedi rhoi trwyddedau siopau cigyddion i fusnesau nad oeddent yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995. Hefyd, cyflwynwyd gwobrau i rai o'r busnesau hyn am eu safonau hylendid. Dim ond i fusnesau sy'n cydymffurfio â'r Rheoliadau y gellir rhoi trwyddedau siopau cigyddion.

Cofnodion Arolygu Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd

Roedd yng nghofnodion arolygiadau hylendid bwyd, yn enwedig y rheiny a oedd yn ymwneud ag arolygiadau o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995, a chofnodion arolygiadau safonau bwyd, ddiffyg manylion ac roeddent yn annigonol i ddarparu'r hanes busnes cywir sy'n ofynnol ar gyfer arolygiadau dilynol. Mae cofnodion manwl yn hanfodol am eu bod nid yn unig yn helpu llywio camau gorfodi ond, hefyd, yn galluogi monitro gweithgaredd gorfodi yn effeithiol.

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Gweithredai'r Awdurdod lywodraeth leol ar sail arddull Gabinet. Roedd gan Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd gyfrifoldeb am y portffolio a gynhwysai Iechyd yr Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd.

3.2 Cynhwysai Cyfansoddiad yr Awdurdod Gynllun Dirprwyo a Phenodi, a ddefnyddid i ddirprwyo rhai o swyddogaethau'r Awdurdod i swyddogion.

3.3 Roedd gan swyddogion yn nhîm Iechyd yr Amgylchedd gyfrifoldeb am ddyletswyddau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd yr Awdurdod. Roedd gan y tîm Safonau Masnach gyfrifoldeb am orfodi bwydydd anifeiliaid.

3.4 Adolygai a datblygai'r Awdurdod ei Gynllun Gwella Corfforaethol yn flynyddol yn rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella.

3.5 Nodai'r Bennod am yr Amgylchedd, yn y Cynllun Gwella, rôl y Gyfarwyddiaeth mewn helpu i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol yr Awdurdod o dan y penawdau canlynol:

- Iechyd a Lles;
- Datblygiad Economaidd Lleol;
- Amgylchedd Gwell;
- Addysg Gydol Oes a
- Chymunedau Diogelach a Chryfach.

3.6 Cynhwysai'r Cynllun Gwella wybodaeth am sut roedd yr Awdurdod yn perfformio yn erbyn ei dargedau ar gyfer y ddwy flynedd flaenorol, a nodai ei dargedau ar gyfer 2004 - 2005. Y dangosyddion perfformiad a oedd yn berthnasol i orfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid ar gyfer 2004 - 2005 oedd:

- Canran yr arolygiadau o safleoedd bwyd a ddylai fod wedi'u cynnal, a gynhaliwyd ar gyfer:
  - safleoedd risg uchel;
  - safleoedd eraill;
- Sgôr yn erbyn y rhestr wirio o arfer gorau gorfodi ar gyfer Iechyd yr Amgylchedd / Safonau Masnach;
- Canran yr ymweliadau â safleoedd Safonau Masnach Uchel eu risg, risg Canolig, ac Isel eu risg, ar sail asesiad o'r risg;
- Amser ymateb Safonau Masnach ar gyfer cwynion.

3.7 Amcangyfrifai'r Awdurdod ei fod wedi cyrraedd ei nod o gyflawni 100% o'r holl arolygiadau hylendid bwyd a oedd i'w gwneud yn ystod 2003 - 2004. Fodd bynnag, datgelai adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod mwy na 40 o arolygiadau yn rhaglen y flwyddyn bresennol yn hwyr, ac nad oedd gan nifer o safleoedd ddyddiadau eu harolygiadau rhaglenedig nesaf ar gyfer hylendid bwyd.

3.8 Arhosai'r targed perfformio ar gyfer arolygiadau hylendid bwyd arfaethedig ar safleoedd uchel eu risg yn 100% yng Nghynllun Gwella 2004 - 2005, er na chynhwysid y targed o ran arolygiadau hylendid bwyd ar safleoedd 'eraill' o ganlyniad i'r newid yn nangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

3.9 Nododd Cynllun Gwella'r flwyddyn flaenorol nifer o nodau ac amcanion newydd ar gyfer 2003 - 2004, a dau ohonynt oedd 'Archwilio Ein Swyddogaethau Gorfodi', a 'Gwella Hyfforddiant a Datblygiad Adrannol' gan y nodwyd fod y rhain yn 'faterion uchel eu risg yn dilyn yr asesiad o'r awdurdod cyfan'.

3.10 Canlyniad yr archwiliad o'r swyddogaethau gorfodi oedd adroddiad o'r enw 'Adroddiad Astudio Gwaelodlin Adolygu Gorfodi', a nodai 19 o swyddogaethau gorfodi a oedd yn gyfrifoldeb Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Cynhwysai'r rhain 'diogelwch bwyd', 'iechyd a lles anifeiliaid', a gynhwysai fwydydd anifeiliaid, a 'Safonau Masnach'.

3.11 Aseswyd y 19 swyddogaeth gorfodi yn erbyn cyfres o feini prawf er mwyn nodi'r rheiny uchaf eu risg. Nid oedd diogelwch bwyd, iechyd a lles anifeiliaid a Safonau Masnach ymysg y rheiny a nodwyd yn rhai uchaf eu risg.

3.12 Nodai Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd 2004 - 2005 sut y bwriadai'r Awdurdod ymdrin â'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau o ran gorfodi cyfraith fwyd, clefydau trosglwyddadwy a gwenwyn bwyd. Ni ymdriniwyd â dyletswyddau a chyfrifoldebau o ran gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid yn y Cynllun Gwasanaeth hwn, ar wahân i ddatgan nifer y Safleoedd cofrestredig a Chymeradwy.

3.13 Nodwyd bod yr Awdurdod wedi cyfuno gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid ag iechyd a lles anifeiliaid at ddibenion cynllunio gwasanaeth, a'i gynnwys yn eu Cytundeb Fframwaith DEFRA.

3.14 Yn ei ddogfennaeth cyn-arolygu, adroddai'r Awdurdod y byddid yn adrodd am Gynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd 2004 - 2005 i'r Cabinet i'w gymeradwyo ar 10 Mehefin 2004, er i hyn gael ei oedi.

3.15 Nodwyd na ddangosai'r Cynllun Gwasanaeth sut y bwriadai'r Awdurdod ymdrin ag amrywiannau o'r flwyddyn flaenorol, gan gynnwys arolygiadau safonau bwyd hwyr, arolygiadau bwydydd anifeiliaid, a samplo bwydydd anifeiliaid.

3.16 Manylwyd adolygiad perfformiad blynyddol Adran Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer 2003 - 2004 yng Nghynllun Cyflwyno a Datblygu 2004 - 2005. Nodai hwn nifer o feysydd i'w gwella a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â gorfodi cyfraith fwyd a rheoli clefydau trosglwyddadwy a gwenwyn bwyd, gan gynnwys:

- Hyfforddiant ar safonau bwyd i staff;
- Ail-ganolbwyntio blaenoriaethau ar Agenda Iechyd y Cyhoedd;
- Dulliau gorfodi amgen ar gyfer safleoedd bwyd isel eu risg.

3.17 Cyfeiriwyd rhyw ychydig at orfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid yng Nghynllun Cyflwyno a Datblygu Iechyd a Lles Anifeiliaid, ond nid oedd yn nodi amrywiannau o weithgaredd y flwyddyn flaenorol.

3.18 Cynhwysai'r Cynllun Gwasanaeth grynodeb o'r rhaglenni arolygu hylendid bwyd a safonau bwyd a phroffiliau risg unigol safleoedd, er nad oedd nifer yr arolygiadau a raglennwyd, a manylion y safleoedd a oedd i'w harolygu, yn gyson.

3.19 Nodai'r Awdurdod fod 4.2 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar gael i ymdrin â gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd yn erbyn nifer gofynnol datganedig o 5.5 yn y Cynllun Gwasanaeth, diffyg o 1.3 FTE. Nifer y swyddogion a oedd ar gael i ymdrin â gorfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid oedd 0.2 FTE, er na nodwyd y nifer gofynnol.

3.20 Lefel gyffredinol y gwariant o ran cynnig y gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd yn 2003 - 2004 oedd £139,460. Fodd bynnag, ni nodwyd y duedd o ran tyfiant neu leihad mewn termau real, y dadansoddiad manwl a nodwyd yn y Cytundeb Fframwaith, a'r ffigurau cyfatebol ar gyfer bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

3.21 Dylai'r Awdurdod:

(i) Adolygu a gweithredu ei Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth fel ei fod yn bodloni'r holl feini prawf a nodwyd yn yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1 Y Cytundeb Fframwaith. [Y Safon – 3.1]

(ii) Sicrhau bod yr adolygiad o berfformiad yn cynnwys gweithgaredd bwydydd anifeiliaid ac y caiff ei ddogfennu a'i gyflwyno i'w adolygu gan yr aelodau priodol. [Y Safon – 3.2]

(iii) Ymdrin â'r holl amrywiannau wrth fodloni'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn olynol. [Y Safon - 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn i reoli dogfennaeth, ac nid oedd wedi cwblhau dogfennu ei bolisïau a'i weithdrefnau ar gyfer yr holl weithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon. Gweithredid nifer o weithdrefnau ers meitin, ond ni adolygwyd pob un ohonynt yn rheolaidd.

4.2 Roedd gan swyddogion fynediad ar-lein at wefan LACORS ac i ddogfennaeth ar Fewnrwyd yr Awdurdod yn y swyddfeydd rhanbarth ac, yn gyffredinol, roedd fersiynau cyfredol o ddeddfwriaeth, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a dogfennaeth a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun, ar gael.

4.3 Fodd bynnag, nodwyd bod rhai copïau o Godau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac Atodiad Diweddaru Cod Ymarfer Rhif 16 a ddefnyddid adeg yr archwiliad, yn fersiynau a ddisodlwyd.

Argymhellion

4.4 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon eu hadolygu yn rheolaidd, a phryd bynnag y ceir newidiadau i ddeddfwriaeth neu arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon - 4.1]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu system reoli ar gyfer yr holl ddogfennaeth, a sicrhau bod copïau cyfredol o ddogfennaeth ar gael yn yr holl leoliadau perthnasol ac i'r holl staff perthnasol, ac y gwaredir dogfennau a ddisodlwyd.
[Y Safon – 4.2]

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Dirprwyai Cyfansoddiad yr Awdurdod bwer i'r Cyfarwyddwr a dirprwy'r Cyfarwyddwr benodi Swyddogion Awdurdodedig o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac Arolygwyr o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth. Hefyd, roedd gan y Cyfarwyddwr bwer i awdurdodi unrhyw swyddog arall i ymarfer y swyddogaeth benodi hon a, hefyd, roedd gan y Prif Weithredwr bwer cyffredinol i ymarfer cyfrifoldeb dirprwyedig.

5.2 Dim ond i swyddogion yn Nhîm Iechyd yr Amgylchedd yr estynnai'r pwer dirprwyedig i benodi Swyddogion Awdurdodedig o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, a dim ond i swyddogion yn y Tîm Safonau Masnach yr estynnai'r pwer i benodi Arolygwyr o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth.

5.3 Hefyd, galluogai'r un pwerau dirprwyedig:

- Benodi Dadansoddwr Cyhoeddus yr Awdurdod;
- Caniatáu, gwrthod, diddymu, a gwahardd trwyddedau siopau cigyddion;
- Caniatáu, gwrthod, diwygio, gwahardd a diddymu cymeradwyaeth sefydliadau o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch;
- Gorfodi Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

5.4 Ni ymddangosai y dirprwywyd y ddyletswydd i benodi Dadansoddwr Amaethyddol yr Awdurdod a'i Ddirprwy o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970, a'r pwer i gyhoeddi Rhybuddion Ffurfiol yn enw'r Awdurdod, i swyddogion.

5.5 Nodwyd y cynhwysai Cyfansoddiad yr Awdurdod gyfeiriadau at ddeddfwriaeth a ddiddymwyd.

5.6 Roedd gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd, dirprwy'r Cyfarwyddwr, a'r Prif Weithredwr y pwerau dirprwyedig angenrheidiol o dan y Cyfansoddiad i benodi Swyddogion ac Arolygwyr Awdurdodedig o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Amaethyddiaeth 1970 yn ôl eu trefn. Roedd y Cyfarwyddwr wedi llofnodi'r holl ddogfennau awdurdodi swyddogion a welwyd adeg yr archwiliad.

5.7 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig i Awdurdodi Swyddogion, er nad oedd ond yn gymwys i Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig a oedd yn gymwys i awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 neu o

dan Reoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

5.8 Nodai'r weithdrefn ddogfenedig y byddai Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd yn pennu lefel awdurdod priodol staff, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth, gan roi ystyriaeth i:

- Gymwysterau;
- Profiad o waith diogelwch bwyd a/neu safonau bwyd;
- Y prif atebolrwydd, fel a ddisgrifiwyd yn y swydd-ddisgrifiad.

5.9 Sefydlwyd meini prawf awdurdodi i ddiffinio'r gofynion o ran cymwysterau a phrofiad yr oedd yn rhaid i swyddogion eu bodloni cyn cael eu hawdurdodi i ymarfer amrywiol bwerau gorfodi diogelwch bwyd a safonau bwyd Swyddogion Awdurdodedig o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.10 Ni ddangosai'r weithdrefn ddogfenedig sut y dylid ymdrin â gofynion hyfforddiant a chymhwysedd strwythuredig Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd o ran penodi ac awdurdodi swyddogion newydd ac asesu'r gofynion, ac nid oedd unrhyw gofnodion o asesiadau cymhwysedd y fath staff a'u hyfforddiant strwythuredig.

5.11 Nodai'r Polisi Arolygiadau Hylendid Bwyd y byddai Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd yn cynnal asesiadau o gymhwysedd. Hefyd, cynhwysai'r polisi adrannau ar gymwysterau a chyfrifoldebau Swyddogion Awdurdodedig.

5.12 Nid oedd copïau o dystysgrifau cymwysterau allweddol rhai swyddogion a awdurdodwyd o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ar gael. Cynhwysai'r rhain un swyddog yn Nhîm Iechyd yr Amgylchedd, a'r holl swyddogion â chanddynt awdurdod o'r fath yn y Tîm Safonau Masnach.

5.13 Nodwyd bod cyfrifoldeb am orfodi cyfraith safonau bwyd wedi'i drosglwyddo o'r Tîm Safonau Masnach i Dîm Iechyd yr Amgylchedd yn 2002, ond nad oedd awdurdodiadau swyddogion wedi cael eu diweddaru yn unol â hynny.

5.14 Nid oedd gan nifer o swyddogion, a awdurdodwyd o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd, y cymwysterau angenrheidiol ar gyfer ystod y pwerau gorfodi yr oeddent wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio. Ar gam, credai'r Awdurdod fod gan y swyddogion hyn gymwysterau cyfwerth, y darparwyd ar eu cyfer yng Nghod Ymarfer 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd ond, er hynny, nid oeddent wedi cysylltu ag Asiantaeth Safonau Bwyd ynglyn â'r mater hwn.

5.15 Rhoddwyd dogfennau i swyddogion a gadarnhâi eu penodiadau a chwmpas eu hawdurdod. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd awdurdodiadau rhai swyddogion yn bodloni'r meini prawf cyfatebol yn y weithdrefn ddogfenedig. Hefyd, nodwyd bod swyddogion yn nhîm Iechyd y Cyhoedd, er nad oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldebau o ran gorfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd, wedi'u hawdurdodi o dan y Ddeddf.

5.16 Roedd gan swyddogion yn y Tîm Safonau Masnach ddogfennau awdurdodi cyffredinol a gynhwysai Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Nid oeddent wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r ffaith nad oedd y swyddogion perthnasol yn gyfrifol am orfodi cyfraith fwyd mwyach.

5.17 Ni awdurdodwyd swyddogion yn Nhîm Iechyd yr Amgylchedd i weithredu o dan Reoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran cynhyrchion a ddeilliai o anifeiliaid, gan gynnwys bwyd a fewnforir a sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ac ati.

5.18 Penodwyd swyddogion arweiniol â chanddynt gyfrifoldeb am orfodi deddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Fodd bynnag, golygai cofnodion anghyflawn o ran hyfforddiant a chymwysterau nad oedd yn bosibl gwirio bod gan y swyddogion hyn y wybodaeth, hyfforddiant a chymwysterau arbenigol sy'n ofynnol i'w penodi.

5.19 Dangosai cofnodion arolygu a chofnodion eraill bod rhai swyddogion wedi gweithredu y tu hwnt i gwmpas eu hawdurdod.

5.20 Nodai Polisi a Gweithdrefn Hyfforddiant Iechyd yr Amgylchedd y byddai pob swyddog a awdurdodwyd i gynnal arolygiadau bwyd yn cwblhau o leiaf 10 awr o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â bwyd, y flwyddyn. Nid oedd polisi na gweithdrefn hyfforddiant cyfatebol ar gyfer Safonau Masnach.

5.21 O dan y Polisi a Gweithdrefn Hyfforddi, cadwai'r swyddogion eu cofnodion hyfforddiant eu hunain a'u hanfon at Reolwr Iechyd yr Amgylchedd ar ddiwedd pob blwyddyn. Ni alluogai hyn yr Awdurdod i fonitro a oedd swyddogion yn cynnal lefelau gofynnol yr hyfforddiant priodol yn ystod y flwyddyn.

5.22 Nid oedd rhaglen hyfforddi ddogfenedig ar gyfer Tîm Iechyd yr Amgylchedd na'r Tîm Safonau Masnach, er bod cynllun adolygu a datblygu personol corfforaethol.

5.23 Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod swyddogion wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol o ran Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Troseddol (PACE), Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA), neu Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol.

5.24 Dangosai cofnodion o ran hyfforddiant a wnaed nad oedd o leiaf 6 swyddog yn y Tîm Masnachol wedi derbyn y lleiafswm o 10 awr o hyfforddiant datblygiad parhaus y flwyddyn yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

5.25 Yn gyffredinol, ni chynhwysai cofnodion a oedd ar gael ynghylch hyfforddiant, gynnwys ac amcanion y cwrs, cyfnod yr hyfforddiant, nac asesiad o'r hyfforddiant a wnaed.

5.26 Roedd nifer y Swyddogion Awdurdodedig a benodwyd i gyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod o ran gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990, a Rheoliadau a wnaed oddi tano, yn llai na'r nifer yr amcangyfrifodd yr Awdurdod fod arno eu hangen.

Argymhellion

5.27 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y seilir awdurdodi swyddogion ar eu cymwysterau, eu profiad a'u cymhwysedd, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, a'i fod yn estyn ei weithdrefn ddogfenedig i gynnwys awdurdodi ei swyddogion gorfodi bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau bod gan swyddogion a benodwyd i fod yn bennaf gyfrifol am ddeddfwriaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid wybodaeth arbenigol briodol. [Y Safon – 5.2]

(iii) Sicrhau ei fod wedi penodi digon o swyddogion awdurdodedig i gyflawni'r rhaglen a nodwyd yn ei Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth, a bod gan swyddogion gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas sy'n gyson â'u hawdurdod a'u dyletswyddau, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.
[Y Safon – 5.3]

(iv) Sicrhau bod rhaglen hyfforddi ddogfenedig i'r holl swyddogion awdurdodedig, a bod swyddogion yn derbyn lleiafswm yr hyfforddiant sy'n ofynnol bob blwyddyn. [Y Safon – 5.4]

(v) Sicrhau bod hyfforddiant Swyddogion Awdurdodedig yn cynnwys holl agweddau perthnasol ymarfer gorfodi a materion cyfreithiol, a bod cofnodion hyfforddiant yn cynnwys amcanion a chynnwys cyrsiau, a'r cyfnod ac unrhyw asesiad a wnaed o ran hyfforddiant. [Y Safon – 5.4]

(vi) Sicrhau y cedwir cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau eraill perthnasol pob swyddog awdurdodedig a staff ategol priodol, yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon - 5.5]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol i ganiatáu cynnal yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Ym mis Rhagfyr 2003, sefydlwyd a chyflwynwyd Gweithdrefn ddogfenedig i Wirio Cywirdeb Systemau Mesur Tymheredd Bwyd i sicrhau y caiff offer mesur tymheredd bwyd eu cynnal a'u calibro'n briodol. Ni ddangosai'r weithdrefn y camau i'w cymryd o ganfod bod offer yn ddiffygiol.

6.3 Nodai'r weithdrefn ddogfenedig y dylid gwirio offer mesur tymheredd bwyd yn flynyddol yn erbyn thermomedr cyfeirio a galibrid gan y gweithgynhyrchwr yn flynyddol.

6.4 Nid oedd y weithdrefn yn ei wneud yn ofynnol gwirio'r cywirdeb rhwng gwiriadau blynyddol, neu cyn neu ar ôl defnyddio'r offer.

6.5 Ni weithredid y weithdrefn ddogfenedig yn llawn.

6.6 Adeg yr archwiliad, ystyrid bod systemau rheoli data yr Awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd, er bod diffyg hyfforddiant ynghylch ysgrifennu adroddiadau cronfa ddata yn achosi anawsterau o ran cynhyrchu'r wybodaeth ofynnol.

6.7 Hefyd, nododd yr archwilwyr faterion o ran y ffordd y gweithredid systemau a effeithiai ar allu'r Awdurdod i roi'r wybodaeth ofynnol i Asiantaeth Safonau Bwyd.

6.8 Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig i leihau'r risg o lygru neu golli gwybodaeth a ddelid ar y cronfeydd data. Collwyd y gronfa ddata gwenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy ar ôl amnewid y cyfrifiadur pen bwrdd y cedwid y gronfa ddata arno. Er mwyn osgoi achosion fel hyn yn y dyfodol, trosglwyddwyd cofnodi achosion o wenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy i'r gronfa ddata adrannol a rwydweithiwyd.

6.9 Rheolai polisi diogelwch TG corfforaethol fynediad at rwydwaith corfforaethol yr Awdurdod, a'r defnydd o ddata arno.

6.10 Cymerwyd copïau wrth gefn o'r gronfa ddata adrannol yn ddyddiol gan y Tîm Systemau Gwybodaeth corfforaethol, a'u storio mewn lleoliad ar wahân.

Argymhellion

6.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff y weithdrefn ddogfenedig ar gyfer gwirio cywirdeb systemau mesur tymheredd bwyd ei gweithredu'n briodol, ac y manylir y camau i'w cymryd o ganfod bod offer yn ddiffygiol, a'r dull o wirio cywirdeb offer monitro tymheredd. [Y Safon – 6.2]

(ii) Sicrhau y caiff y system feddalwedd gyfrifiadurol ei gweithredu yn y fath fodd fel ei bod yn gallu darparu'r holl wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth. [Y Safon – 6.4]

(iii) Sicrhau y gweithredir y gronfa ddata yn y fath fodd fel ag i ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth. [Y Safon – 6.4]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Nododd Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd yr Awdurdod ar gyfer 2004 - 2005 ei fod yn gyfrifol am gynnal arolygiadau hylendid bwyd mewn cyfanswm o 1140 o fusnesau bwyd yn ei ardal. Ni nodwyd proffil graddio risg hylendid bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth, er y nodwyd mai nifer yr arolygiadau a raglennwyd a oedd i'w gwneud ym mhob categori graddio risg yn ystod y flwyddyn oedd:

Gradd Risg	Amlder Arolygu	Arolygiadau a Raglennwyd
A	**6 mis**	**32**
B	**12 mis**	**96**
C	**18 mis**	**359**
D	**24 mis**	**37**
E	**36 mis**	**69**
F	**60 mis**	**3**
Cyfanswm		**596**

7.2 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth nad oedd yr Awdurdod yn bwriadu cynnal arolygiadau a raglennwyd ar gyfer busnesau â chanddynt radd risg D, E neu F ar gyfer hylendid bwyd, a oedd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd dogfennau eraill a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad yn gwrth-ddweud hyn.

7.3 Roedd gan yr Awdurdod 'Polisi ar gyfer Arolygiadau Hylendid Bwyd' a oedd yn gymwys i arolygiadau a wnaed o dan reoliadau hylendid bwyd cyffredinol.

7.4 Ni nodai'r Polisi y sylfaen y sefydlwyd y rhaglen arolygu hylendid bwyd arfaethedig arni, sut y byddid yn dyrannu arolygiadau, na sut y byddid yn monitro ymlyniad wrth y rhaglen arolygu arfaethedig.

7.5 Nid oedd unrhyw bolisi neu weithdrefn ddogfenedig, neu ffurflenni arolygu safonol, a gynhwysai arolygu safleoedd cymeradwy o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.6 Nodai'r Cynllun Gwasanaeth y cyflawnodd yr Awdurdod 100% o'r holl arolygiadau hylendid bwyd a oedd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dangosai adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad bod arolygiadau hylendid bwyd ar 40 o fusnesau bwyd yn hwyr, 29 ohonynt yng nghategorïau risg A-C.

7.7 Hefyd, nodwyd na raddiwyd risg 26 o'r safleoedd bwyd ar gronfa ddata'r Awdurdod o ran hylendid bwyd, ac nad oeddent wedi'u cynnwys yn y rhaglen arolygu hylendid bwyd arfaethedig.

7.8 Dangosai archwiliad o hanes arolygiadau busnesau bwyd ar 10 safle cyffredinol a 6 Safle Cymeradwy, a arolygwyd yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad, y cynhelid arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.9 Cynhwysai'r polisi arolygu hylendid bwyd daflen i gofnodi adroddiadau am arolygiadau ar safleoedd masnachol, a ddefnyddid ers mis Ebrill 2003. Gadewid copi gyda'r perchennog ar ddiwedd arolygiad.

7.10 Nid oedd unrhyw weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, er y defnyddid ffurflen arolygu safonol a gynhwysai holl agweddau'r cais, yr arolygu, yr asesu a phennu'r cais. Rhoddwyd trwyddedau i 16 o siopau cigyddion gan yr Awdurdod.

7.11 Canfu archwiliad o 11 o ffeiliau a oedd yn ymwneud â siopau cigyddion trwyddedig bod cofnodion, yn gyffredinol, yn ddigonol, er nad oedd digon o dystiolaeth ar ffeil mewn 2 achos i ddangos a gynhaliwyd asesiad llawn o'u cydymffurfiad â Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol).

7.12 Hefyd, nodwyd i drwyddedau siopau cigyddion gael eu rhoi ar yr un pryd â llythyrau a fanylai droseddau niferus a sylweddol o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol). Rhoddwyd un drwydded a oedd yn destun amodau, ac nid oedd hyn yn unol â'r Rheoliadau.

7.13 Anfonwyd llythyrau ôl-arolygu ym mhob achos, er y cafwyd oediad o fwy na 2 fis mewn 2 achos. Yn gyffredinol, roedd nodiadau arolygu a data arolygu arall a gofnodwyd gan swyddogion adeg arolygiadau, yn ddealladwy ac yn adferadwy.

Argymhellion

7.14 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl yr amlder perthnasol, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon - 7.1]

(ii) Sicrhau y caiff safleoedd bwyd eu harolygu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr Awdurdod. [Y Safon - 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiad safleoedd a systemau yn eu hardal â safonau cyfreithiol ragnodedig. [Y Safon – 7.3]

(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer siopau cigyddion a safleoedd sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch. [Y Safon – 7.4]

(v) Sicrhau y caiff sylwadau a wnaed a/neu ddata a gasglwyd yn ystod arolygiad eu cofnodi yn amserol a'u bod yn adferadwy. [Y Safon – 7.5]

Safonau Bwyd

7.15 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2004 - 2005 fod 1140 o sefydliadau bwyd yn ardal yr Awdurdod yn gymwys i'w harolygu, ond nodai mai dim ond ar gyfer 326 ohonynt y graddiwyd eu risg o ran safonau bwyd. Awgrymai hyn nad oedd yr Awdurdod wedi cynnal asesiadau risg safonau bwyd ar ryw 814 o fusnesau bwyd. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn cyd-fynd â rhestr o 1136 o safleoedd, a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad, lle'r oedd yr Awdurdod yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd. O'r 1136 o safleoedd hyn, nid oedd gan 93 radd risg safonau bwyd, er y nodai'r Cynllun Gwasanaeth y 'caiff safleoedd eu graddio yn unol â Chod Ymarfer Rhif 8'. Roedd proffil y 326 o fusnesau a gynhwysid yn y Cynllun Gwasanaeth fel a ganlyn:

Grwp Risg	Amlder Arolygu	Cyfanswm y Safleoedd
Uchel	12 mis	0
Canolig	24 mis	295
Isel	60 mis	31
Cyfanswm		326

7.16 Ni chynhwysai'r Cynllun Gwasanaeth unrhyw fanylion am y rhaglen arolygu safonau bwyd arfaethedig, ond nodai bod 87% o

arolygiadau safonau bwyd a oedd i'w gwneud yn ystod 2003 – 2004, wedi'u gwneud.

7.17 Nid oedd gan yr Awdurdod bolisi neu weithdrefn ddogfenedig o ran cynnal arolygiadau safonau bwyd, ac nid oedd ganddo restr wirio safonol ynghylch arolygiadau safonau bwyd a fodlonai ofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.18 Nid oedd Cynllun Cyflwyno a Datblygu 2004 - 2005, a adolygai gyflawniadau a pherfformiad y flwyddyn flaenorol ac a nodai flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf, yn cynnwys gorfodi safonau bwyd.

7.19 Nid oedd llawer o dystiolaeth ar ffeil nac ar y gronfa ddata y bu'r Awdurdod yn cynnal unrhyw weithgaredd arwyddocaol o ran gorfodi safonau bwyd. Datgelodd adroddiad a gynhyrchwyd yn ystod yr archwiliad fod arolygiadau safonau bwyd ar 39 o fusnesau bwyd yn hwyr, 15 ohonynt yn rhai risg canolig a 24 yn rhai isel eu risg.

7.20 Nid oedd gan naw deg tri o fusnesau bwyd a gynhwysid yn y rhaglen arolygu safonau bwyd radd risg ar gyfer safonau bwyd, ac nid oedd gan 57 o fusnesau y graddiwyd eu risg, ddyddiad eu harolygiad nesaf. Hefyd, gadewid nifer fawr o fusnesau bwyd eraill oddi ar y rhaglen arolygu safonau bwyd. Roedd anghysondebau yng nghymhwysiad y sgoriau risg, ac ni fu'r Awdurdod yn cynnal arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder sylfaenol sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.21 Yr unig fusnesau bwyd y cafwyd unrhyw gofnod o weithgaredd diweddar arwyddocaol yn eu cylch o ran gorfodi safonau bwyd, oedd gweithgynhyrchwyr.

7.22 Archwiliwyd hanes arolygiadau safonau bwyd ar 12 o fusnesau bwyd yr adroddodd yr Awdurdod eu bod wedi'u harolygu yn ystod y flwyddyn cyn yr archwiliad. Dim ond mewn 3 achos y cafwyd tystiolaeth o unrhyw weithgaredd gorfodi safonau bwyd a oedd yn ymwneud a'r busnes cyn yr arolygiad diweddar.

7.23 Ym mwyafrif yr achosion, yr unig dystiolaeth y cynhaliwyd arolygiad safonau bwyd oedd taflen graddio risg a lenwyd a dyddiad a gofnodwyd ar y gronfa ddata gyfrifiadurol. Yn gyffredinol, nid oedd cofnod o gwmpas yr arolygiad, yr unigolion a welwyd yn ystod yr arolygiad, na'r canlyniad.

Argymhellion

7.24 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl yr amlder perthnasol, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Sicrhau y caiff safleoedd bwyd eu harolygu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr Awdurdod. [Y Safon - 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiad safleoedd a systemau yn eu hardal â safonau cyfreithiol ragnodedig. [Y Safon – 7.3]

(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer safleoedd sy'n destun deddfwriaeth safonau bwyd. [Y Safon – 7.4]

(v) Sicrhau y cofnodir sylwadau a wnaed a/neu ddata a gasglwyd yn ystod arolygiad yn amserol a'u bod yn adferadwy. [Y Safon – 7.5]

Bwydydd Anifeiliaid

7.25 Nodai Cynllun Gwasanaeth 2004 - 2005 fod yr awdurdod wedi 'cymeradwyo, trwyddedu neu gofrestru' 103 o safleoedd bwydydd anifeiliaid o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1998. Hefyd, nododd yr Awdurdod mewn dogfennaeth cyn-arolygu na aseswyd risg yr un o'r 1800 o ffermydd yn yr ardal o ran bwydydd anifeiliaid.

7.26 Roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu taflen i ffermwyr, a'i fwriad oedd defnyddio adnodd y Swyddogion Iechyd Anifeiliaid i ddosbarthu'r rhain i ffermwyr ac i gael gwybodaeth i ddiweddaru'r gofrestr ynghylch gweithgaredd cymysgu ar ffermydd.

7.27 Nid oedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygu bwydydd anifeiliaid, a nododd na chynhaliwyd arolygiadau bwydydd anifeiliaid mewn safleoedd cofrestredig neu Gymeradwy.

7.28 Nid oedd yr Awdurdod yn ymdrin â'i gyfrifoldebau o ran gorfodi ynghylch bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

7.29 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ôl yr amlder a bennir gan y radd risg berthnasol.
[Y Safon – 7.1]

(ii) Sicrhau y caiff safleoedd bwydydd anifeiliaid eu harolygu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol yr Awdurdod ei hun.
[Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiad safleoedd a systemau yn eu hardal â safonau cyfreithiol ragnodedig. [Y Safon – 7.3]

(iv) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau arolygu dogfenedig ar gyfer safleoedd sy'n destun deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 7.4]

(v) Sicrhau y caiff sylwadau a wnaed a/neu ddata a gasglwyd yn ystod arolygiadau eu cofnodi yn amserol a'u bod yn adferadwy.
[Y Safon – 7.5]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymchwilio i gwynion am hylendid bwyd a safonau bwyd. Hefyd, roedd nifer o ddogfennau safonol a hwylusai ymchwilio i gwynion am fwyd yn systematig. Cynhwysai'r rhain ddalen ymchwilio i gwynion am fwyd, cofnod cyfweld, a chyfres o lythyrau safonol.

8.2 Yn ddiweddar, cyflwynwyd taflen wybodaeth i esbonio'r broses o ymchwilio i gwynion i ddefnyddwyr, ac i roi gwybodaeth am raddfeydd amser tebygol a chanlyniadau posibl.

8.3 Nid oedd gweithdrefn ddogfenedig a oedd yn gymwys i gwynion am safleoedd bwyd neu fwydydd anifeiliaid.

8.4 Archwiliwyd cofnodion 10 o gwynion am ddiogelwch bwyd a 9 o gwynion am safonau bwyd. Cynhaliwyd ymchwiliadau priodol, a gweithredwyd yn unol ag amserlenni perthnasol. Fodd bynnag, yn achos 3 cwyn am safonau bwyd, ni chafwyd cysylltiad ag Awdurdodau Cartref neu Wreiddiol yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig.

8.5 Nid oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw gwynion ynghylch bwydydd anifeiliaid yn ystod y 12 mis cyn yr archwiliad.

Argymhellion

8.6 Dylai'r Awdurdod:

(i) Estyn a gweithredu ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â chwynion am fwydydd anifeiliaid a chwynion am safleoedd bwyd. [Y Safon – 8.1]

(ii) Sicrhau y caiff gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymchwilio i gwynion am safonau bwyd eu gweithredu'n llawn. [Y Safon – 8.2]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nid oedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn ffurfiol, ond nodai Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd 2004 – 2005 fod yr Awdurdod yn ‘ cydnabod Egwyddor yr Awdurdod Cartref, a bod ganddo gytundebau anffurfiol â’r holl gynhyrchwyr yn y Sir ar gyfer materion safonau bwyd’. Roedd 20 o fusnesau yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu’n anffurfiol yn Awdurdod Cartref ar eu cyfer.

9.2 Cadarnhâi gweithdrefnau dogfenedig bod cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol yn rhan o broses orfodi’r Awdurdod.

9.3 Roedd yr Awdurdod wedi cytuno i fod yn Awdurdod Cartref dros dro i Farchnadoedd Ffermwyr yng Nghymru, a’i fwriad oedd datblygu’r rôl hon yn ystod 2004 - 2005.

9.4 Roedd gan swyddogion fynediad ar-lein at gronfa ddata LACORS, a gallent nodi Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol ar gyfer busnesau y tu allan i ardal yr Awdurdod, a chysylltiadau perthnasol mewn awdurdodau lleol eraill. Cynhwysai cronfa ddata Awdurdodau Cartref LACORS 18 o fusnesau bwyd ac 1 busnes bwydydd anifeiliaid yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu’n Awdurdod Cartref ar eu cyfer. Diweddarwyd cofnodion y gronfa ddata yn ddiweddar.

9.5 Dangosai cofnodion a archwiliwyd fod yr Awdurdod, yn gyffredinol, yn gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref ac yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau eraill.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Roedd yr Awdurdod yn helpu busnesau lleol i gydymffurfio â'r gyfraith, ac roedd wedi darparu cyngor a gwybodaeth ar ystod o faterion hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Arweiniad ynghylch diogelwch bwyd i ddefnyddwyr neuaddau pentref;
- Arweiniad a thaflenni cofnodi bwydydd anifeiliaid;
- Arweiniad labelu bwyd ynghylch QUID (Datganiadau cynhwysion meintiol);
- Labelu brechdanau;
- Labelu bwyd yn gyffredinol;
- Cyngor ar ddyluniad, saernïaeth a chynllun safleoedd bwyd;
- Gwybodaeth i gigyddion am y Rheoliadau Labelu Cig Eidion;
- Arweiniad ar baratoi a defnyddio amserlenni glanhau;
- Arweiniad hunangymorth dadansoddi perygl i arlwywyr.

10.2 Roedd tystiolaeth bod cyngor ar gael ar gais ac y rhoddid cyngor yn rheolaidd yn ystod arolygiadau.

10.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn ymateb cwsmeriaid a fyddai'n helpu llywio ei broses cynllunio gwasanaeth, ac yn helpu ffurfio, canolbwyntio a gwella ei wasanaeth yn y dyfodol.

10.4 Roedd yr Awdurdod wedi cyfarfod â chynrychiolwyr marchnadoedd ffermwyr yng Nghymru, ac wedi gwirfoddoli i gynnig cyngor a chefnogaeth mewn trefniant a seilid ar Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Defnyddiai Adran yr Amgylchedd system rheoli data a gwybodaeth electronig i gadw manylion y safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Roedd gan yr Awdurdod Bolisi Diogelwch TG corfforaethol dogfenedig, a Pholisi Rhyngrwyd ac e-bost, ond nid oedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer sicrhau bod cronfa ddata Adran yr Amgylchedd yn gywir ac yn gyfredol.

11.3 Roedd gan Weinyddwr y System gyfrifoldeb am greu cyfrifon a chyfrineiriau i ddefnyddwyr y gronfa ddata, ac am osod lefelau diogelwch defnyddwyr.

11.4 Gwnaed cais am nifer o adroddiadau cronfa ddata yn ystod yr archwiliad i wirio gweithrediad y gronfa ddata a chywirdeb y data. Cynhwysai'r adroddiadau hyn restrau llawn o safleoedd bwyd ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd a oedd yn hwyr, safleoedd mewn categorïau risg gwahanol o ran hylendid bwyd, cofnodion safleoedd bwyd a oedd heb ddyddiad eu harolygiad nesaf, a safleoedd a eithriwyd o'r rhaglen arolygu.

11.5 Dangosai'r adroddiadau hyn nad oedd y gronfa ddata'n cael ei gweithredu yn y fath fodd fel y gellid dibynnu ar gywirdeb y data a gofnodwyd.

11.6 Cynhyrchwyd adroddiadau ar gyfer safleoedd bwyd nad oedd ganddynt radd risg safonau bwyd gan yr Awdurdod cyn yr archwiliad ac yn ystod yr archwiliad. Rhestrai'r adroddiadau 45 o safleoedd yn yr adroddiad cyn-arolygu a 93 o safleoedd yn yr adroddiad a gynhyrchwyd.

11.7 Dewiswyd pymtheg o safleoedd bwyd yn ardal yr Awdurdod ar hap o gyfeiriadur busnes lleol. Cofnodwyd pob un ohonynt ar y gronfa ddata a'u cynnwys yn y rhaglen arolygu hylendid bwyd a safonau bwyd, a chofrestrwyd 12 ohonynt.

Argymhellion

11.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn ddogfenedig i sicrhau bod y gronfa ddata safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]

(ii) Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r gronfa ddata i nodi diffygion yn ei gweithrediad ac yng nghywirdeb y data, a gweithredu camau cywirol. [Y Safon – 11.1]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.1 Nodai Polisi Gorfodi Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod fod cadw ac atafaelu bwyd yn ddewisiadau gorfodi y byddai Swyddogion Awdurdodedig yn eu defnyddio mewn amgylchiadau priodol. Ni soniwyd am ildio bwyd yn wirfoddol fel dewis gorfodi yn y polisi hwn.

12.2 Hefyd, roedd 'Polisi ar gyfer Gorfodi Diogelwch Bwyd', a gynhwysai'r dewisiadau i atafaelu, cadw, neu dderbyn bwyd a ildiwyd yn wirfoddol.

12.3 Cynhwysai'r ddwy ddogfen bolisi weithdrefnau manwl, er yn wahanol, ar gyfer cadw ac atafaelu bwyd. Nid oedd gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ildio bwyd yn wirfoddol.

12.4 Ni chafwyd unrhyw achosion o atafaelu, cadw neu ildio bwyd yn wirfoddol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

12.5 Nodai Polisi Samplo Bwyd dogfenedig yr Awdurdod y byddai samplo bwyd anffurfiol a ffurfiol yn canolbwyntio ar fwyd a gynhyrchid yn ardal yr Awdurdod. Nodai'r polisi'r amgylchiadau lle y byddid yn cymryd samplau bwyd, a gynhwysai gyfranogi mewn arolygon a gyd-drefnwyd yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

12.6 Roedd gan yr Awdurdod Raglen Samplo Bwyd flynyddol ar gyfer samplau hylendid bwyd a safonau bwyd, ac roedd tystiolaeth o gyfranogiad mewn ystod o weithgaredd samplo bwyd a anelwyd at ystod o gynhyrchion a gynhyrchid ac a weithgynhyrchid yn lleol, a chyfranogiad mewn arolygon a gyd-drefnwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

12.7 Nid oedd gan yr Awdurdod bolisi, gweithdrefn neu raglen samplo bwydydd anifeiliaid, ac nid oedd wedi cynnal unrhyw samplo ar fwydydd anifeiliaid yn ddiweddar.

12.8 Rhestrai dau adroddiad a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod yn rhan o'r ddogfennaeth cyn-arolygu 288 o samplau hylendid bwyd a 34 o samplau safonau bwyd a gymerwyd yn ystod chwe mis olaf 2003 - 2004.

12.9 Roedd y labordai a ddefnyddiai'r Awdurdod i archwilio a dadansoddi samplau bwyd a bwydydd anifeiliaid wedi'u hachredu ac ar y rhestr o Labordai Swyddogol y rhoddodd Llywodraeth y DU wybod amdanynt i'r Comisiwn Ewropeaidd.

12.10 Ni allai'r Awdurdod gynhyrchu tystiolaeth ei fod wedi penodi Dadansoddwr Amaethyddol a Dadansoddwr Cyhoeddus yn ffurfiol.

Hylendid Bwyd

12.11 Archwiliwyd cofnodion 10 o samplau hylendid bwyd. Roedd tri ohonynt yn samplau o gwynion y rhoddwyd y cod anghywir iddynt ar y gronfa ddata. Cymerwyd y 7 sampl a oedd yn weddill yn unol â'r rhaglen samplo hylendid bwyd.

12.12 Cofnodwyd manylion a chanlyniadau samplau ar y gronfa ddata, cysylltwyd ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol lle bu'n ofynnol, a chymerwyd camau dilynol ynghylch canlyniadau anfoddhaol trwy roi cyngor priodol, arolygu, a chymryd mwy o samplau.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.13 Archwiliwyd cofnodion 3 sampl safonau bwyd. Rhoddwyd gwybod i fusnesau y cymerwyd samplau, a chymerwyd camau dilynol priodol ynghylch canlyniadau anfoddhaol.

12.14 Nid oedd tystiolaeth fod yr Awdurdod wedi ymgymryd ag unrhyw weithgarwch samplo bwydydd anifeiliaid yn ystod 2003 - 2004 na 2004 - 2005.

Argymhellion

12.15 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff bwyd a bwydydd anifeiliaid eu harolygu yn unol â deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, i sicrhau bod bwyd a bwydydd anifeiliaid yn bodloni safonau cyfreithiol ragnodedig. [Y Safon – 12.1]

(ii) Adolygu ei weithdrefnau dogfenedig ar gyfer arolygu bwyd a'i estyn i gynnwys arolygu bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 12.3]

(iii) Sicrhau y caiff polisi a rhaglen samplo dogfenedig eu sefydlu, ei gynnal a'i weithredu o ran samplo bwydydd anifeiliaid. [Y Safon - 12.4]

(iv) Adolygu a diweddaru penodiadau Dadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol yr Awdurdod, gan gymryd i ystyriaeth holl ofynion cyfreithiol perthnasol Deddf Diogelwch Bwyd 1990, Codau Ymarfer cysylltiedig, a Deddf Amaethyddiaeth 1970. [Y Safon – 12.8]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Roedd gan yr Awdurdod 'Gynllun Achosion Difrifol o Wenwyn Bwyd' (yr OCP) yn seiliedig ar fodel a gynhyrchwyd gan Weithgor Cymru Gyfan ym 1999, a luniwyd ar y cyd â phartïon eraill â chanddynt ddiddordeb. Ni allai'r Awdurdod ddangos y mabwysiadwyd yr OCP yn ffurfiol.

13.2 Y tro diwethaf i'r OCP gael ei arolygu oedd ym mis Mehefin 2003 ac, adeg yr archwiliad, roedd angen ei ddiweddaru am ei fod yn cynnwys nifer o gyfeiriadau a oedd wedi dyddio. Nodwyd bod yr Awdurdod yn aros tan cyhoeddi cynllun model diweddaredig, a oedd yn cael ei ddatblygu gan Banel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru.

13.3 Nodai'r OCP y byddai'n cael ei brofi trwy ymarferiad efelychu o leiaf bob 2 flynedd pe na fyddai'r cynllun wedi cael ei weithredu yn ystod y cyfnod hwnnw ond, hefyd, nid oedd unrhyw dystiolaeth y gwnaed hyn.

13.4 Hefyd, defnyddiai'r Awdurdod 'Nodiadau Ymarfer ar gyfer Ymchwilio i Achosion o Glefyd y Llengfilwyr' De Ddwyrain Cymru, ac roedd ganddo 'Protocol ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Gastro-enteritis Firaol'.

13.5 Adroddodd yr Awdurdod y cafwyd 4 achos o glefydau trosglwyddadwy yn yr ardal yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad. Achosion o heintiad firaol a gadarnhawyd neu a ddrwgdybiwyd oedd y rhain i gyd. Er nad oedd y rhain yn achosion a oedd yn ymwneud â bwyd, ymchwiliwyd iddynt yn fras yn unol â'r gweithdrefnau dogfenedig.

13.6 Cynhwysai gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol 'Gweithdrefn ar gyfer Ymchwilio i Achosion Achlysurol o E. coli O157' De Ddwyrain Cymru, a gweithdrefnau'r Awdurdod ar gyfer 'Ymchwilio i Achosion Achlysurol o Wenwyn Bwyd' ac 'Ymchwilio i Achosion Achlysurol o Cryptosporidiosis'.

13.7 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cynhyrchu cyfres o daflenni cyngor ar ystod eang o glefydau trosglwyddadwy.

13.8 Dim ond ar gyfer y 2 flynedd cyn yr archwiliad yr oedd cofnodion ynghylch achosion ac achosion achlysurol o glefydau trosglwyddadwy ar gael.

13.9 Yn ystod yr archwiliad, archwiliwyd deuddeg ymchwiliad i rybuddion o achosion achlysurol. Nid oedd tystiolaeth y cymerwyd unrhyw gamau mewn 2 achos, ac roedd 2 gofnod arall yn ymwneud â'r un

achos. Yn gyffredinol, nid oedd y cofnodion a oedd yn weddill yn ddigonol i bennu a gynhaliwyd ymchwiliad trylwyr yn unol â gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod.

Argymhellion

13.10 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff ei OCP dogfenedig a gweithdrefnau eraill eu hadolygu, eu diweddaru ac, os yw'n ofynnol, eu profi, ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol eraill. [Y Safon - 13.1]

(ii) Sicrhau y caiff ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin ag achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd ei gweithredu'n llawn gan swyddogion wrth gynnal ymchwiliadau, ac y cedwir cofnodion priodol.
[Y Safon – 13.2]

(iii) Sicrhau y caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd eu cadw am 6 blynedd.
[Y Safon – 13.3]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig, dyddiedig Rhagfyr 2003, o'r enw 'Gorfodi Rhybuddion Perygl Bwyd Deddf Diogelwch Bwyd 1990'.

14.2 Nodai'r weithdrefn y trefniadau ar gyfer ymateb i Rybuddion Perygl Bwyd (RhPB) a gyhoeddir gan Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau diogelwch bwyd perthnasol a nodwyd yn ardal yr Awdurdod.

14.3 Hefyd, cynhwysai'r weithdrefn fanylion cyfredol ar gyfer cysylltu ag Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, ond nid oedd yn dangos sut y byddai'r Awdurdod yn sicrhau ymateb yn amserol i achosion a ddigwyddai y tu allan i oriau gwaith arferol yr Adran.

14.4 Nodwyd bod yr Awdurdod yn cefnogi gwasanaeth brys y tu allan i oriau gwaith a weithredid gan awdurdod cyfagos, a'i fod wedi rhoi manylion ar gyfer cysylltu â staff allweddol Iechyd yr Amgylchedd iddo fel rhan o'r trefniant hwnnw.

14.5 Cynhwysid taflen gofnodi RhPB safonol a chofnod diweddaru yn y weithdrefn ddogfenedig i sicrhau y delid â RhPB a Digwyddiadau Diogelwch Bwyd yn systematig. Nodai'r weithdrefn y byddid yn cadw cofnodion am flwyddyn.

14.6 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn RhPB, a nodai'r weithdrefn ddogfenedig y derbynnid RhPB drwy negeseuon e-bost gan Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd y Tîm Masnachol a Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd.

14.7 Dangosai archwiliad o gofnodion yr Awdurdod ynghylch RhPB a gyhoeddwyd yn ystod y 18 mis cyn yr archwiliad y derbyniwyd pob un o'r rheiny a ddewiswyd, ac y gweithredwyd yn briodol yn eu cylch yn unol â chyngor Asiantaeth Safonau Bwyd. Dogfennwyd ymatebion a chanlyniadau ac, mewn achosion priodol, tynnwyd sylw at y rhain trwy roi cyhoeddusrwydd iddynt yn lleol.

Argymhellion

14.8 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithdrefn ddogfenedig i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith. [Y Safon – 14.1]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod 'Polisi Gorfodi Iechyd yr Amgylchedd' dogfenedig, a 'Polisi ar gyfer Gorfodi Diogelwch Bwyd' ar wahân, a gynhwysai egwyddorion arweiniol cymesuredd, cysondeb, tryloywedd ac atebolrwydd y Concordat Gorfodi.

15.2 Ni chymeradwyid yr un o'r ddau Bolisi Gorfodi gan y fforwm Aelodau perthnasol.

15.3 Nid oedd Polisi Gorfodi a oedd yn gymwys i orfodi cyfraith bwydydd anifeiliaid.

Hylendid Bwyd

15.4 Roedd gan yr Awdurdod 'Polisi ar gyfer Erlyn Troseddau Diogelwch Bwyd' a 'Protocol Erlyn' ar gyfer Safonau Masnach. Hefyd, roedd gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer Cyflwyno Rhybuddion Gwella yn gyffredinol, ac yn benodol ar gyfer cyflwyno Rhybuddion Gwella am ddiffyg cydymffurfiad â Rheoliad 4(3) y Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol).

15.5 Mewn dogfennaeth cyn-archwilio, adroddodd yr Awdurdod ei fod wedi cymryd y camau gorfodi canlynol o ran materion hylendid bwyd yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

- 3 Erlyniad;
- 1 Rhybudd ffurfiol;
- 21 Rhybudd Gwella.

15.6 Archwiliwyd cofnodion 3 erlyniad, 1 rhybudd ffurfiol ac 8 Rhybudd Gwella, a'u gwirio yn erbyn arweiniad swyddogol, dogfennau polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig eraill yr Awdurdod.

15.7 Awdurdodwyd yr erlyniadau gan Bennaeth Democratiaeth a Gwasanaethau Cyfreithiol yr Awdurdod, yr oedd ganddo'r pwer dirprwyedig angenrheidiol i wneud hynny. Fodd bynnag, ni allai'r Awdurdod ddangos y dirprwywyd y pwer i swyddogion roi rhybuddion ffurfiol.

15.8 Cynigiai adroddiadau swyddogion ar fformat safonol dystiolaeth ddogfennol yr ystyriwyd Polisi Gorfodi'r Awdurdod yn y penderfyniad i erlyn ac i roi'r rhybudd ffurfiol, y gwnaed y cyfan heb oedi gormodol ac o dan y ddeddfwriaeth gywir. Fodd bynnag, roedd cofnodion yn annigonol i ddangos y bodlonwyd gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn llawn.

15.9 Roedd swyddogion a oedd wedi cyflwyno Rhybuddion Gwella wedi'u hawdurdodi'n gywir, a chyflwynwyd rhybuddion dan amgylchiadau

priodol. Fodd bynnag, mewn 4 achos, nid oedd tystiolaeth ar ffeil i ddangos sut y cyflwynwyd y Rhybuddion.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

15.10 Nid oedd yr Awdurdod wedi cymryd unrhyw gamau gorfodi ffurfiol o ran safonau bwyd neu fwydydd anifeiliaid yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhellion

15.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod y fforwm Aelodau perthnasol yn cymeradwyo Polisi Gorfodi dogfenedig sy'n cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. [Y Safon - 15.1]

(ii) Sicrhau y dirprwyir y pwer i roi Rhybuddion Ffurfiol yn enw'r Awdurdod, yn ffurfiol i swyddogion priodol. [Y Safon - 15.2]

(iii) Sicrhau y gorfodir cyfraith fwyd yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.3]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Cedwid cofnodion am safleoedd lle'r oedd gan yr Awdurdod gyfrifoldebau gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid yn system gyfrifiadurol rheoli data a gwybodaeth Adran yr Amgylchedd ac mewn ffeiliau copi caled.

16.2 Ni chedwid yr holl gofnodion ynghylch safleoedd a ddefnyddiwyd yn fusnesau bwyd neu fwydydd anifeiliaid am o leiaf 6 blynedd am y cyfnod hwnnw.

Hylendid Bwyd

16.3 Yn gyffredinol, nid oedd cofnodion safleoedd a oedd yn destun Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) 1995 a Safleoedd Cymeradwy yn cynnwys digon o wybodaeth i ddangos cwmpas yr arolygiadau a wnaed, a hanes diweddar y busnesau perthnasol.

16.4 Roedd cofnodion a oedd yn ymwneud â thrwyddedu siopau cigyddion yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda.

16.5 Adlewyrchai gohebiaeth ôl-arolygu ofynion Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, er nad oedd y gwahaniaeth rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion yn eglur bob tro.

16.6 Yn gyffredinol, roedd cofnodion o ran samplau hylendid bwyd yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda.

Safonau Bwyd

16.7 Roedd cofnodion o ran arolygiadau safonau bwyd yn annigonol i bennu a gynhaliwyd arolygiadau priodol.

16.8 Mewn nifer o achosion, dim ond yn rhannol y llenwyd ffurflenni arolygu safonau bwyd, ac roedd y wybodaeth a gofnodwyd yn annigonol i fodloni gofynion Cod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

16.9 Yn gyffredinol, roedd cofnodion samplau safonau bwyd wedi'u cadw'n dda.

Bwydydd Anifeiliaid

16.10 Nid oedd yr Awdurdod wedi cynnal yr un arolygiad ar safleoedd bwydydd anifeiliaid, nac wedi cymryd unrhyw samplau bwydydd anifeiliaid, yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad.

Argymhellion

16.11 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod cofnodion ynghylch safleoedd yn cynnwys adroddiadau o'r holl arolygiadau ac ymweliadau, asesiadau o gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, asesiadau graddio'r risg, canlyniadau samplau a manylion camau dilynol, manylion cwynion, camau anffurfiol a ffurfiol, copïau o geisiadau a phenderfyniadau o ran cofrestru, cymeradwyo a thrwyddedu. [Y Safon - 16.1].

(ii) Sicrhau y cedwir yr holl gofnodion am 6 blynedd. [Y Safon – 16.2].

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu 'Polisi Ymateb Cwsmeriaid Corfforaethol' a alluogai aelodau'r gymuned ac eraill a effeithid gan y gwasanaethau a gynigiai'r Awdurdod a'r modd y cawsent eu cynnig, i leisio'u barn. Roedd crynodeb ar gael ar ffurf taflen o adeiladau dinesig ac ar wefan yr Awdurdod ar y Rhyngrwyd.

17.2 Cynhwysid paragraff safonol a esboniai hawl y derbynnydd i gyflwyno 'apêl' anffurfiol yn yr holl ohebiaeth ynghylch gorfodi cyfraith fwyd a bwydydd anifeiliaid.

17.3 Ni chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn erbyn naill ai Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd na Gwasanaeth Safonau Masnach o ran gorfodi cyfraith fwyd neu fwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu effeithiol ag awdurdodau cyfagos a chyrff priodol eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad yn y canlynol:

- Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De Ddwyrain Cymru;
- Grwp Bwyd Gwent Fwyaf;
- Grwp Gorchwyl Clefydau Trosglwyddadwy De Ddwyrain Cymru.

18.2 Roedd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt ar gael, ac roeddent yn cadarnhau bod cynrychiolwyr gwasanaeth priodol yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd.

18.3 Hefyd, nodwyd bod yr Awdurdod wedi secondio Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd i'r Bwrdd Iechyd lleol am 2 ddiwrnod yr wythnos i ddatblygu mentrau mannau gwaith iach. O ganlyniad, roedd yr Awdurdod wedi cymryd y mentrau hyn i ystyriaeth yn ei brosesau datblygu a chynllunio gwasanaeth.

18.4 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau cydweithio â:

- Cynllun Peilot Ciniawau Ysgol Sir Fynwy;
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru;
- Awdurdodau lleol eraill;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Colegau lleol a darparwyr hyfforddiant eraill;
- Marchnadoedd Ffermwyr yng Nghymru.

19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu gweithdrefn monitro mewnol ddogfenedig a oedd yn gymwys i arolygiadau hylendid bwyd.

19.2 Roedd tystiolaeth bod monitro mewnol ar weithgareddau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd wedi cynyddu yn ddiweddar. Cynhwysai gweithgarwch agweddau ansoddol a meintiol fel:

- Holiaduron defnyddwyr gwasanaeth;
- Adolygu ffeiliau;
- Adolygiadau personol;
- Monitro perfformiad;
- Cyfarfodydd tîm;
- Gwirio ffeiliau a dogfennau;
- Monitro gohebiaeth;
- Hyfforddiant mewnol.

19.3 Ar gyfartaledd, cynhelid cyfarfodydd y Tîm Masnachol bob 10 wythnos, a dangosai cofnodion y trafodid ystod o weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd.

19.4 Hefyd, roedd y Tîm Masnachol wedi cynnal ymarferiad cysondeb asesu risg.

19.5 Fodd bynnag, dangosodd yr archwiliad na fu monitro mewnol, yn y gorffennol, yn ddigonol i sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni ei rwymedigaethau a'i ddyletswyddau o ran Y Safon, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

19.6 Cynhaliai'r Tim Safonau Masnach Arolygon Boddhad rheolaidd â Chwsmeriaid a Busnesau, ond nid oedd gweithdrefn monitro mewnol a oedd yn gymwys i weithgareddau gorfodi bwydydd anifeiliaid.

Argymhellion

19.7 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol dogfenedig ar gyfer safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, yn unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 19.1]

(ii) Gwirio cydymffurfiad â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad perthnasol a gyhoeddwyd yn ganolog, a'i bolisïau a gweithdrefnau ei hun o ran holl agweddau'r gwasanaeth. [Y Safon - 19.2]

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Roedd Tîm Masnachol Iechyd yr Amgylchedd wedi cyfranogi yn adolygiad dogfennau ac archwiliad o gydymffurfio rhyng-awdurdod Hylendid Bwyd Cymru gyfan ym 1999.

20.2 Mynegodd y Tîm Masnachol ddiddordeb mewn cyfranogi mewn unrhyw ymarferion tebyg sy'n codi yn y dyfodol.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch bwyd.

21.2 Cyfranogai gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a'r gwasanaeth Safonau Masnach mewn ystod o weithgareddau hyrwyddo, ac roedd ganddynt gynlluniau am waith pellach yn y maes hwn. Roedd gweithgareddau'n cynnwys:

- Wythnos diogelwch bwyd;
- Sioe deithiol 'Byw ac Iach';
- Gwobrau hylendid bwyd;
- Prosiect prydau ysgolion;
- Defnyddiwr ifanc y flwyddyn;
- Areithiau addysgiadol.

21.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cyhoeddi datganiadau i'r wasg i roi cyhoeddusrwydd i'r gwasanaeth, a ddefnyddid gan bapurau newydd lleol mewn erthyglau ac eitemau newyddion.

Argymhellion

21.4 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau ei fod yn estyn ei weithgareddau hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]

Archwilwyr: Jane Davies
Rob Wilkins
Lindsay Horth
Tony Wheale

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11 Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD A

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod

	lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.
Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.

Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid bwyd uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno

	gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.